NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Mae paclitaxel fel nano-ronynnau ynghlwm wrth albwmin gyda gemcitabine ar gyfer canser pancreatig metastatig nas triniwyd

6 Medi 2017

Parclitaxel fel nano-ronynnau ynghlwm wrth albwmin (nab-paclitaxel; Abraxane), gyda gemcitabine, ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer canser pancreatig metastatig nas triniwyd mewn oedolion:

- os nad oes cemotherapi cyfunol arall yn addas ac
- y byddent fel arall yn cael gemcitabine yn unig.

Os nad ydych yn gymwys i gael nab-paclitaxel, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

### *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU (CancerHelp UK yn flaenorol), 0808 800 4040
- Cymorth Canser Macmillan, 0808 808 000
- Pancreatic Cancer Action, 0303 040 1770
- Pancreatic Cancer UK, 0808 801 1707

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-2669-5

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights